



**POLISI**  
**Rheoli a Sicrhau Ansawdd**

**2021-22**

## Cynnwys

Adran	Rhif tudalen	Rhif paragraff
1. Cyd-destun	3	1.1-1.3
2. Statws	3	2.1
3. Polisi	4-7	3.1-3.7
4. Gweithdrefn	5-7	4.1-4.10
5. Monitro	8	5.1-5.2
6. Adolygu	8	6.1-6.2

Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod eisiau cael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Uned Adnoddau Dynol ar [HR@nptc.ac.uk](mailto:HR@nptc.ac.uk) neu ar 01639 648031

## **Adran 1: Cyd-destun**

### **Amcan Strategol**

- 1.1 Gweithredu system sicrhau a rheoli ansawdd gynhwysfawr ar gyfer pob agwedd ar weithrediadau'r Grŵp.

### **Diffiniadau**

- 1.2 Y diffiniad eang o reoli ansawdd yw:  
Y mecanweithiau monitro ac adolygu sy'n sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a gyflwynir gan y Grŵp.
- 1.3 Y diffiniad eang o sicrwydd ansawdd yw:  
Y systemau rheoli sy'n adolygu ac yn rheoleiddio systemau ansawdd i gynnal ffitrwydd ar gyfer pwrpas.

## **Adran 2: Statws**

- 2.1 Cymeradwywyd y polisi gan Uwch Dîm Rheoli'r Grŵp ar 13 Medi 2006.  
Wedi'i ddiweddarau yn unol â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin Rhagfyr 2010  
Wedi'i ddiweddarau i gyd-fynd â'r Grŵp wedi'i uno Awst 2013  
Wedi'i ddiweddarau gydag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn leithyddol Ionawr 2018  
Wedi'i ddiweddarau gydag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn leithyddol Rhagfyr 2021
- 2.2 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Pennaeth Cynorthwyol: Ansawdd erbyn mis Rhagfyr 2022.
- 2.3 Mae'r polisi hwn wedi cael Sgrinio gyda Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar 01 Rhagfyr 2021.

## **Adran 3: Polisi**

- 3.1 Mae'r Grŵp wedi ymrwmo i ragoriaeth a'r egwyddor o welliant parhaus a sicrwydd ansawdd.
- 3.2 Mae ymrwymiad i ansawdd yn ei holl agweddau yn angenrheidiol ac yn ofynnol gan bawb sy'n ymwneud â darparu a chefnogi'r broses ddysgu.
- 3.3 Mae'r Grŵp o'r farn y dylid rheoli ansawdd y ddarpariaeth ar bob lefel yn y grŵp a'i bod yn broses barhaus. Yn ei thro mae'r System Ansawdd yn

hwyluso rheoli ansawdd a sicrwydd ansawdd ledled y sefydliad. Mae mesurau ansoddol a meintiol a gynhyrchir gan y system yn galluogi cynhyrchu adroddiadau a'r penllanw yw llunio'r Adroddiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol.

- 3.4 Mewn egwyddor, mae'r System Ansawdd Grŵp wedi'i chynllunio i fodloni gofynion sicrhau ansawdd sefydliadau partner, sefydliadau dyfarnu a phob asiantaeth allanol arall sydd â diddordeb. Mae'r broses hunanasesu yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredin cyfredol Estyn a chanllawiau ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.
- 3.5 Mae pob agwedd ar weithrediadau'r Grŵp yn ddarostyngedig i egwyddorion rheoli ansawdd a sicrwydd ansawdd.
- 3.6 Mae holl Unedau Swyddogaethol y Grŵp yn cytuno ar gytundebau lefel gwasanaeth ac yn gweithredu yn unol â hwy. Cytunir ar Gwestiynau Allweddol sy'n ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth ac maent yn sail i Adroddiadau Ysgol a Maes Gweithredol.

3.7 Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Cynnal strwythur staffio a rheoli sy'n nodi atebolrwydd am reoli ansawdd a sicrhau ansawdd yn glir
- Gweithredu system ansawdd a chylch ansawdd sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n rhoi pwyslais ar broses
- Darparu System Gwybodaeth Rheoli sy'n sail i'r System Ansawdd gyda data cywir
- Cynnwys holl gyflogeion y sefydliad mewn adolygiadau hunanasesu
- Adrodd ar faterion ansawdd i Fwrdd y Gorfforaeth
- Datblygu a monitro Cynlluniau Gwella Ansawdd sy'n pennu targedau heriol ar gyfer gwella ansawdd
- Cefnogi gwella ansawdd drwy hyfforddiant staff strwythuredig a ffurfiol.

## **Adran 4: Gweithdrefn**

4.1 Mae'r Cylch Ansawdd yn cwmpasu swyddogaethau Rheoli Ansawdd a Sicrwydd Ansawdd. Mae allbynnau o'r cylch yn sail i'r broses o ddarparu'r cwrwllwm, rheoli, cwblhau Adroddiadau Blynyddol a'r broses Cynllunio Grŵp gyffredinol.

4.2 Y timau gweithredol a'r rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am Reoli Ansawdd.

- Pennaeth Cynorthwyol: Ansawdd
- Cyfarwyddwyr
- Penaethiaid Ysgolion
- Timau Cwrs a Phwnc

- Pennaeth Cynorthwyol: tîm AU ac AB
- Rheolwyr yr Unedau Swyddogaethol
- Timau Gweithredol
- Academi Sgiliau Cymru

#### 4.3 Proses a Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Ansawdd:

- Cyfarfodydd tîm ar lefel academaidd ac uned swyddogaethol i alluogi staff i ystyried pob mater sy'n ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth yn eu maes. Mae Nodyn Ffeil Cyfarfodydd yn ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol.
- Gall materion ansawdd a nodir gan dimau ac a gyfeirir at reolwyr fod yn destun strategaethau a champau gweithredu i ymyrryd ac i unioni pryderon fel rhan o'r mecanwaith monitro parhaus.
- Mae'r cylch cyflawn o gyfarfodydd tîm ar lefel Uned Swyddogaethol a thystiolaeth a gafwyd o grwpiau ffocws, arolygon ar-lein ac adborth myfyrwyr yn galluogi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yr Uned Swyddogaethol.
- Cynhelir adolygiadau cwrs / pwnc ffurfiol ym misoedd Tachwedd a Chwefror ac mae holiaduron ac arolygon wedi'u cwblhau gan y myfyrwyr yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Adroddiadau Blynyddol.
- Mae adroddiadau blynyddol yn dilyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin, fel sy'n berthnasol, ac yn nodi meysydd o arfer da ac agweddau i'w gwella.
- Agweddau ar gyfer gwella ac wedyn eu trosglwyddo i'r cynllun gwella Ansawdd.
- Mae dogfennau Adolygu Cwrs CR1 a CR2 wedi cael eu huno ers mis Gorffennaf 2021 i greu'r Adroddiad Rhaglen. Mae timau rhaglen yn adolygu eu perfformiad yn ystod y flwyddyn academaidd, gan nodi arfer da a meysydd i'w gwella. Mae agweddau ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin, safonau, data perfformiad cwricwlwm, meincnodau a meini prawf graddio eraill fel data ALP yn cael eu cynnwys yn y ddogfen adolygu.
- Mae'r Cylch Ansawdd yn cynnwys arsylwadau ystafell ddosbarth sy'n cyfrannu at werthuso agweddau yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae'r arsylwadau ystafell ddosbarth yn cael eu modelu ar brotocolau Aseidiadau Allanol Estyn. Mae'r aseswyr yn Uwch Reolwyr ac yn aelodau o dimau rheoli ysgolion ac maent yn cael eu cefnogi gan Arolygwyr Cymheiriaid sydd wedi'u hyfforddi gan Estyn.
- Mae'r cylch cyflawn o gyfarfodydd tîm, strategaethau adborth myfyrwyr a'r cylch arolygu mewnol yn cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol

ffurfiannol sydd, o'u cyfuno, yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad cryno ar lefel Ysgol. Defnyddir yr Adroddiadau Ysgol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth gan Uwch Reolwyr i lunio'r Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol.

- Mae meysydd swyddogaethol yn cynhyrchu adroddiad blynyddol yn seiliedig ar adroddiad Archwilio mewnol ac allanol, hunanarfarnu ac adborth o grwpiau ffocws, cyfarfodydd ac arolygon llais y myfyrwyr.
- Bydd Cynlluniau Gwella Ansawdd o Dargedau'r Ysgol a'r Unedau Gweithredol yn cael eu hadolygu bob tymor gan y Grŵp Safonau a Rheoli Perfformiad.
- Mae ysgolion ac unedau swyddogaethol yn darparu, lle bo hynny'n berthnasol, ddogfennau hunanarfarnu sy'n cyd-fynd â Chod Ansawdd y Grŵp Rheoli Ansawdd a Gwella AU.
- Mae'r gwaith o fonitro rhaglenni AU yn flynyddol ac yn barhaus, lle cânt eu cynnig, yn cael ei gwblhau yn unol â phrosesau a gweithdrefnau'r corff dyfarnu perthnasol

#### 4.4 Mae amrywiaeth o grwpiau rheoli yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd:

- Y Grŵp Cwricwlwm a Rheoli Ansawdd
- Y Grŵp Rheoli Myfyrwyr
- Grŵp y Gyfarwyddiaeth Fasnachol
- Grŵp Academi Sgiliau Cymru
- Y Grŵp Safonau a Rheoli Perfformiad
- Y Grŵp Rheoli Ansawdd a Gwella AU
- Yr Uwch Dîm Rheoli
- Bwrdd y Gorfforaeth

#### 4.5 Proses a Gweithdrefnau ar gyfer Sicrwydd Ansawdd

- Mae'r Grŵp Safonau a Rheoli Perfformiad yn cyfarfod yn fisol ac mae'r eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda: Adroddiadau Grŵp; Adroddiadau Allanol; Adolygiadau Datblygu Ansawdd, Cymeradwyaeth a Chynnydd.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cyfarfod bob pythefnos ac yn ystyried materion ansawdd ar lefel strategol.
- Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn cyfarfod ddwywaith y tymor ac yn derbyn adroddiadau gan y Grŵp Safonau a Rheoli Perfformiad.
- Mae'r Grŵp Cwricwlwm a Rheoli Ansawdd yn cyfarfod bob hanner tymor ac mae'r eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda: Prosiectau Datblygu'r Cwricwlwm, Cynigion Gweithgarwch Dysgu, sgiliau Sylfaenol

/ Allweddol 14-19 a Chylch Ansawdd WBQ, Cwynion, Grŵp QDP ac Adroddiadau Allanol.

- Mae'r Grŵp Rheoli Ansawdd a Gwella AU yn cyfarfod bob tymor ac mae'r eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda: Argymhellion gan y Grŵp Cydlynwyr Addysg Uwch, y Grŵp Gweithredol Addysg Uwch, ac adroddiadau gan y Grŵp Arweinwyr AU, ysgolion academaidd, a gwasanaethau cefnogi, diweddariadau gan Arweinwyr AU ar feysydd cyfrifoldeb yn unol â Chod Ansawdd y DU, diweddariad Addysgu a Dysgu, diweddariad Datblygu Staff a Llais y Myfyrwr.
- Mae'r Grŵp Rheoli Myfyrwyr yn cyfarfod yn fisol ac mae'r eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda: Materion Myfyrwyr, Adroddiad Gwasanaethau Myfyrwyr a Chynnwys Myfyrwr.
- Mae Grŵp y Gyfarwyddiaeth Fasnachol yn cyfarfod yn fisol ac mae'r eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda: Adroddiad Rheolwyr Masnachol, Adroddiad Rheolwyr Cyllid, Adroddiad Rheolwyr Rhyngwladol, adroddiad Rheolwyr Prosiect a Chyllid, Academi Microsoft a'r Academi Ynni.
- Mae Grŵp Academi Sgiliau Cymru yn cyfarfod yn fisol ac mae'r eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda.

4.6 Mae angen y dogfennau canlynol gan dimau cyrsiau:

- Nodiadau Ffeil Cyfarfodydd
- Adroddiad Rhaglen

4.7 Mae angen y dogfennau canlynol gan Benaethiaid Ysgolion:

- Adroddiad Ysgol
- Cynllun Gwella Ansawdd

4.8 Mae angen y dogfennau canlynol gan Aelodau'r UDRh a Rheolwyr yr Uned Swyddogaethol:

- Adroddiad Ysgol
- Cynllun Gwella Ansawdd

4.9 Mae angen y dogfennau canlynol gan y Timau Arolygu:

- Cofnodion Arsylwi
- Adroddiadau adborth myfyrwyr
- Adroddiadau Teithiau Dysgu
- Cofnodion grwpiau ffocws

4.10 Mae canlyniadau arolygon y myfyrwyr, grwpiau ffocws y myfyrwyr a chanlyniadau strategaethau adborth myfyrwyr eraill yn sail i'r Cylch Ansawdd.

## **Adran 5: Monitro**

5.1 Bydd y Sicrwydd Ansawdd yn cael ei ymgymryd gan y canlynol:

- Y Grŵp Cwricwlwm a Rheoli Ansawdd
- Y Grŵp Rheoli Myfyrwyr
- Grŵp y Gyfarwyddiaeth Fasnachol
- Grŵp Academi Sgiliau Cymru
- Y Grwpiau Safonau a Rheoli Perfformiad
- Yr Uwch Dîm Rheoli
- Bwrdd y Gorfforaeth
- Grŵp Rheoli Sgiliau
- Grŵp Rheoli Ansawdd a Gwella AU

## **Adran 6: Adolygu**

6.1 Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau yn destun adolygiad bob dwy flynedd a bydd y Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol: Ansawdd yn eu cynnal. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2023

6.2 Bydd y dogfennau ategol a'r ffurflenni cyfarwyddyd yn destun adolygiad blynyddol ac yn cael eu cynnal gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a'r Grŵp Cwricwlwm a Rheoli Ansawdd.

## **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn leithyddol a Dogfen Sgrinio**

Mae'r ddogfen hon yn cael ei defnyddio i gofnodi'r asesiad sy'n edrych a fydd polisi, arfer neu ddarpariaeth – neu newid iddynt – yn cael effaith negatif neu positif ar gydraddoldeb nodwedd warchoddedig neu ar y defnydd o'r Iaith Gymraeg.

### **Cam 1 – Sgrinio Cychwynnol**

I ddechrau, ystyriwch pa eitem sy'n cael ei hasesu a beth yw ei phwrpas? Gan ddefnyddio'r bocsys isod, rhwch ddisgrifiad o'r polisi, arfer neu ddarpariaeth sy'n cael ei asesu gyda datganiad byr ynghylch beth yw'r nod i'w gyflawni (ei amcanion a'i nodau) a phwy a effeithir, e.e. staff, myfyrwyr, rhieni/gofalwyr, partneriaid ac ati.

<b>Disgrifiad o'r eitem:</b> Polisi Ansawdd
---



**Amcanion a nodau:** Darparu polisi cryno a theg i roi sylw i brosesau a gweithdrefnau Rheoli Ansawdd yn y Grŵp

**Y rhai a effeithir – e.e.** Staff yn y Grŵp o Golegau

Gan ystyried yr eitem sy'n cael ei hasesu, defnyddiwch y bocsys isod i gofnodi eich meddyliau cychwynnol am y canlyniadau posib ar gyfer y naw nodwedd warchoddedig a'r defnydd o'r laith Gymraeg.

<b>Nodwedd Warchoddedig</b>	<b>Effaith bosib positif neu negatif</b>
<b>Rhyw</b> Yn cael ei alw'n rhywedd hefyd, sy'n golygu dyn neu fenyw.	Dim effaith bosibl
<b>Hil</b> Mae'n cyfeirio at nodwedd warchoddedig Hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, lliw a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol.	Dim effaith bosibl

<b>Nodwedd Warchoddedig</b>	<b>Effaith bosib positif neu negatif</b>
<b>Oedran</b> Os cyfeirir at hyn, mae'n cyfeirio at berson yn perthyn i oedran penodol (e.e. 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e. 18 i 30 oed).	Dim effaith bosibl
<b>Ailbennu Rhywedd</b> Y broses o drawsnewid o un rhywedd i rywedd arall.	Dim effaith bosibl
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b> A yw atyniad rhywiol person tuag at ei ryw ei hun neu'r rhyw arall, neu'r ddau ryw	Dim effaith bosibl

<p><b>Crefydd a Chred</b> Fel rheol yr ystyr yw crefydd ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd rydych yn byw iddo gael ei gynnwys yn y diffiniad.</p>	Dim effaith bosibl
<p><b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b> Beichiogrwydd yw disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl geni.</p>	Dim effaith bosibl
<p><b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b> Priodas - rhwng cyplau o'r un rhyw neu'r ddau ryw, Partneriaeth Sifil – rhwng cyplau o'r un rhyw.</p>	Dim effaith bosibl
<p><b>Anabledd</b> Unrhyw gyflwr tymor hir sy'n effeithio ar weithgarwch o ddydd i ddydd. Mae'r cyflyrau'n cynnwys nam ar y golwg, y clyw neu gorfforol, anabledd dysgu, iechyd meddwl, iechyd, canser, HIV ac MS.</p>	Caniateir i bawb ag anableddau gyflwyno gwybodaeth mewn fformatau amrywiol os dymunir. Rhoddir ystyriaeth briodol i staff sy'n gwella o salwch tymor hir yn y broses briodol.

<b>Yr iaith Gymraeg</b>	<b>Effaith bosib positif neu negatiff</b>
<p>Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu hawliau cyfartal ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar yr egwyddor: Yng Nghymru, ni ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg a dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis hynny.</p>	Byddai effaith negatiff ar siaradwyr Cymraeg pe bai'r polisi a'r weithdrefn ar gael yn Saesneg yn unig.
<b>Esboniad – os yw hynny'n briodol</b>	
<b>Lefel blaenoriaeth: uchel/canolig/isel</b>	

## Cam 2 – Dadansoddiad

Yn seiliedig ar y broses sgrinio uchod bydd rhaid i chi gynnal dadansoddiad i ddilysu eich penderfyniad gwreiddiol. Isod rhaid i chi ddangos pa ddadansoddiad cydraddoldeb ac ieithyddol sydd wedi cael ei wneud gyda'r eitem hon.

Rhestrwch y dystiolaeth, y data neu'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi effaith yr eitem hon. (Rhaid cynnwys unrhyw ddata, adroddiadau, arolygon neu ddolenni gwe a ddefnyddiwyd yn y broses)

<b>Nodweddion Gwarchodedig</b>	<b>Ffynhonnell Data a Chanfyddiadau</b>
<b>Rhyw</b>	Mae prosesau sicrhau ansawdd a hunanasesu yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru ac Estyn i sicrhau dibenion cyllido. Ni all unrhyw unigolyn optio allan o'r gofynion hyn, ond rhoddir ystyriaeth briodol i staff sy'n dychwelyd i'r gwaith yn raddol ar ôl cyfnod o absenoldeb.
<b>Hil</b>	
<b>Anabledd</b>	
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	
<b>Oedran</b>	
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	
<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	
<b>Crefydd a Chred</b>	
<b>Ailbennu Rhywedd</b>	
<b>Yr Iaith Gymraeg</b>	
<b>Y Gymraeg</b>	

## Cam 3 – Ymgysylltu/Ymgynghori ac Aseu

Yn dilyn eich dadansoddiad, rhaid i chi yn awr gofnodi sut rydych wedi asesu'r eitem a phwy oedd yn rhan o'r broses. Sut gwnaed asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac yn ieithyddol a phwy oedd yn rhan o'r penderfyniad?

<b>Y grŵp a effeithiwyd</b>	<b>Natur yr effaith bositif a/neu negatïf neu esboniad ar gyfer dim effaith wedi'i chanfod</b>
<b>Rhyw</b>	
<b>Hil</b>	

<b>Anabledd</b>	Nid oes unrhyw effaith negatif neu bositif ar y Polisi hwn ar gyfer staff
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	
<b>Oedran</b>	
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	
<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	
<b>Crefydd a Chred</b>	
<b>Ailbennu Rhywedd</b>	
<b>Yr Iaith Gymraeg</b>	

#### Cam 4 – Lliniaru a Newidiadau

Yn olaf, manylwch pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud neu sydd i gael eu gwneud ar gyfer newid yn dilyn yr asesiad a'r ymgysylltu i leihau neu ddileu unrhyw effaith niweidiol.

<b>Effaith</b>	<b>Newid posib</b>	<b>Argymhellwyd a gweithredwyd</b>
Mae lwfansau a ganiateir yn cael eu monitro drwy gyfrwng y swyddfa Ansawdd ar y cyd â'r Uned Adnoddau Dynol.		Cytunwyd gan awdur y polisi PC: Ansawdd Dyddiad Cwblhau Rhagfyr 2021

#### **Datganiad o gyfiawnhad a lliniaru lle nad oes posib osgoi effaith negatif**

Ar hyn o bryd nid ydym yn glir a oes unrhyw effaith negatif bendant felly byddwn yn edrych eto ar yr Asesiad hwn ymhen blwyddyn gan ddefnyddio'r data o'r ffurflen cyfleoedd cyfartal wedi'i hadolygu i ystyried y mater eto.

#### **Cofnod o Dystiolaeth**

##### **1. Ymgynghoriad**

Pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal? (Nodwch pryd a gyda phwy)

Y broses ymgynghori	Canfyddiadau
Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal ar gyfer yr eitem hon – fe wnaethom ddibynnu ar adborth a gasglwyd yn flaenorol.	Amherthnasol

## 2. Cyhoeddi

Pryd bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn leithyddol yn cael ei gyhoeddi?

### Dyddiad a dull:

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn leithyddol yn cael ei gyhoeddi fel atodiad i'r Polisi Ansawdd – Rhagfyr 2021

## 3. Monitro ac Adolygu

Sut bydd yr eitem hon yn cael ei hadolygu a'i monitro

### Person neu grŵp arweiniol sy'n gyfrifol a dyddiadau adolygu:

Adolygiad PC: Ansawdd ac Uned AD Rhagfyr 2023

### Rhestr Wirio

- Ydi'r datganiad fformat amgen wedi'i gynnwys ar ddechrau'r ddogfen bolisi?
- Ydi'r ddogfen wedi cael ei fformatio yn unol â chanllawiau cyhoeddi Grŵp NPTC a'r templed polisi?
- Ydi'r paragraff Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi cael ei addasu a'i gynnwys?
- Ar ôl cwblhau gwaith papur yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn leithyddol, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ychwanegu fel atodiad i'r polisi neu'r weithdrefn berthnasol.
- Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â'r Uned ar 01639 648301 neu ar e-bost [HR@nptcgroup.ac.uk](mailto:HR@nptcgroup.ac.uk)

**Llofnod y Rheolwr Asesu**

**Enw (Prif Lythrennau):** Fran Green

**Llofnod:** *Fran Green*

Dyddiad: 01.12.2021